# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **09:10 – 10:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_01_11_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Rhodri Glyn Thomas**<br>**Mike Clark, Hijinx Theatre**<br>**Hill, Hijinx Theatre**<br>**Steve Matthews, PCS Union**<br>**Graham Warlow, Coastguard campaign**<br>**Gaynor Lougher, Hijinx Theatre** |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Rachel O'Toole** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1P-04-339 Gorfodi Safonau Lles Anifeiliaid yn y Diwydiant Ffermio Cwn Bach yn Ne-Orllewin Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i aros am ymateb gan y Gweinidog a gohirio'r broses o drafod y mater hwn tan ar ôl i'r alwad am dystiolaeth ddod i ben.

### 2.2 P-04-340 Creu ardal fenter yng Nghasnewydd
### 2.3

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Aelodau Etholaeth a'r Aelodau Rhanbarthol perthnasol ystyried codi'r mater yn y Cyfarfod Llawn.

Y Clerc i roi manylion i'r Pwyllgor ynghylch ymateb y Gweinidog i'r pwynt a godwyd yn ddiweddar gan Eluned Parrott ar y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn.

## 3. P-03-317 Cyllid ar gyfer y Celfyddydau Hijinx - sesiwn tystiolaeth lafar
## 4.

Cafwyd cyflwyniad ar y mater gan y deisebwyr,gyda chymorth Rhodri Glyn Thomas AC, ac atebwyd cwestiynau gan y Pwyllgor.

## 5. P-04-328 Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau: Cynigion i foderneiddio gwasanaethau gwylwyr y glannau - sesiwn tystiolaeth lafar

Cafwyd cyflwyniad ar y mater gan y deisebwyr, ac atebwyd cwestiynau gan y Pwyllgor.

## 6. Trafod y dystiolaeth lafar

### 6.1 P-03-317 Cyllid ar gyfer y Celfyddydau Hijinx

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ofyn i grŵp gorchwyl a gorffen gael ei sefydlu i adolygu'r gwaith o weithredu argymhellion yr Adroddiad ar Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru a dderbyniwyd gan y Gweinidog;

ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros gyfle cyfartal, gan geisio'i barn ar y materion a nodwyd yn y ddeiseb;

ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i holi sut y bydd yn penderfynu ar y blaenoriaethau a bennir mewn llythyrau cylch gwaith yn y dyfodol at Gyngor Celfyddydau Cymru ac a fyddai modd i Aelodau gyfrannu iddo.

### 6.2 P-04-328 Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau: Cynigion i foderneiddio gwasanaethau gwylwyr y glannau

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at weithredwyr a chyrff twristiaeth yn y Gŵyr ac Eryri a'r pedwar Partneriaeth Twristiaeth Rhanbarthol ar y mater hwn;

ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn a fyddai'r Llywodraeth yn fodlon cynnal asesiad risg o ddiogelwch twristiaid mewn ardaloedd arfordirol yng nghyd-destun cynigion Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ar gyfer dyfodol gorsafoedd gwylwyr y glannau yng Nghymru;

cynhyrchu adroddiad dros dro ar y pwnc, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater;

ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn sut y penderfynwyd ar y cynigion sy'n ymwneud â Chymru gan nodi pryder ynghylch effaith bosibl hyn ar ddiogelwch twristiaid yng Nghymru;

ysgrifennu at Gymdeithas Twristiaeth Sir Benfro a sefydliadau twristiaeth y gogledd, y canolbarth, y de-orllewin a'r de-ddwyrain, a Pharciau Cenedlaethol Cymru i ofyn am eu barn ar y materion a nodwyd yn y ddeiseb.

## 7. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 7.1P-03-288 Strategaeth Genedlaethol ar Fyw'n Annibynnol

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

### 7.2P-03-308 Achub Theatr Gwent

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gofyn i'r mater hwn gael ei gynnwys yn ei flaenraglen waith i'w ystyried yn y dyfodol.

### 7.3P-03-311 Theatr Spectacle

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gofyn i'r mater hwn gael ei gynnwys yn ei flaenraglen waith i'w ystyried yn y dyfodol.

### 7.4P-03-314 Achub Theatr Powys a Theatr Ieuenctid Canolbarth Powys
### 7.5

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gofyn i'r mater hwn gael ei gynnwys yn ei flaenraglen waith i'w ystyried yn y dyfodol.

### 7.6P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd

Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor mewn perthynas â'r deisebau hyn.

### 7.7P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd

Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor mewn perthynas â'r deisebau hyn.

### 7.8P-04-321 Gwasanaethau Trenau Arriva Cymru rhwng de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ond i ofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau barhau i adolygu'r sefyllfa.

### 7.9P-03-310 Polisïau sy'n helpu i Ddiogelu Anghenion a Hawliau Disgyblion

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

anfon y ddeiseb ac unrhyw ohebiaeth gysylltiedig ymlaen i'r ymgynghoriad ar y Bil Ysgolion a Safonau (Cymru);

cau’r ddeiseb ond hysbysu’r deisebydd y byddai’r Pwyllgor yn fwy na pharod i ystyried deiseb wedi’i haralleirio os nad yw’r ymgynghoriad yn mynd i’r afael â’i phryderon.

### 7.10 P-04-323 Achubwch ein hysgolion bach

Anfon y ddeiseb ac unrhyw ohebiaeth gysylltiedig ymlaen i’r ymgynghoriad ar y Bil Ysgolion a Safonau (Cymru);

Cau’r ddeiseb ond hysbysu’r deisebydd y byddai’r Pwyllgor yn fwy na pharod i ystyried deiseb wedi’i haralleirio os nad yw’r ymgynghoriad yn mynd i’r afael â’i phryderon.

### 7.11 P-03-153 Celf Corff

Cytunodd y Pwyllgor i gau’r ddeiseb.

### 7.12 P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y deisebydd gan egluro y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Menter a Busnes yn ystyried y mater hwn ac yna’n cau’r ddeiseb.

### 7.13 P-03-318 Gwasanaethau Mamolaeth Trawsffiniol

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG yr Amwythig a Telford ar y mater hwn, ac at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan ei hannog i wneud cyflwyniad i’r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr mewn perthynas â’r mater.

## 8. Papurau i'w nodi

### 8.1P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol

Nododd y Pwyllgor y papurau hyn.

### 8.2P-03-302 Ffatri Prosesu Compost

Nododd y Pwyllgor y papurau hyn.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.